

Manyleb: cefnogaeth i'n gwaith ar adferiad gwyrdd, cyfartal a chyfiawn (arbenigedd economaidd a dadansoddiad ariannol)

Cyflwyniad

Mae'r fanyleb hon yn agored i unrhyw un sydd â diddordeb mewn cyfle i weithio gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (CDC), i ddarparu cefnogaeth economaidd a dadansoddiad i'n gwaith ar adferiad gwyrdd, cyfartal a chyfiawn o'r pandemig.

Rydym yn ceisio cefnogaeth ar gyfer ein gwaith parhaus ar yr adferiad gwyrdd, cyfartal a chyfiawn yng Nghymru, yn benodol dadansoddiad ariannol ac arbenigedd economaidd trwy gydol 2021-22 ac o bosibl yn 2022-23. Rydym yn chwilio am unigolyn, sefydliad neu gonsortia i weithio gyda ni i ddarparu'r gefnogaeth hon ar sail galw yn ôl y gofyn hyblyg dros gyfnod o 24 mis: byddai'r blaenoriaethau a'r adnoddau sydd eu hangen yn cael eu cynllunio a'u cytuno'n rheolaidd. Mae potensial hefyd am estyniad blwyddyn arall a fydd yn cael ei asesu ar y pwynt 18 mis.

Un o flaenoriaethau allweddol y Comisiynydd ar gyfer eleni yw dylanwadu ar yr adferiad o'r pandemig yng Nghymru, yn enwedig trwy sicrhau bod y Senedd newydd ei hethol a Llywodraeth Cymru yn cymryd cyfleoedd i gael adferiad gwyrdd, cyfartal a chyfiawn. Bydd prif elfennau'r gwaith hwn yn ymwneud â:

- Swyddi a sgiliau mewn diwydiannau allweddol ar gyfer adferiad gwyrdd, cyfartal a chyfiawn;
- Datgarboneiddio, gyda ffocws penodol ar ddatgarboneiddio cartrefi ar raddfa fawr;
- Blaenoriaethau buddsoddi a phroses gyllideb Llywodraeth Cymru.

Dylid anfon cynigion at cysylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru 'At sylw: Cathy Madge' erbyn 5yp ar 30 Ebrill 2021. Os ydych ar y rhestr fer, fe'ch gwahoddir i gwrdd â ni i drafod eich syniadau yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 10fed Mai 2021. Disgwylwch y rhan gyntaf y gwaith i ddechrau yn ystod mis Mai.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan unigolion, sefydliadau neu gonsortia sydd â diddordeb.

Cyd-destun

Cyhoeddodd y Comisiynydd ei [Hadroddiad statudol Cenedlaethau'r Dyfodol](#) cyntaf ym mis Mai 2020, gan olrhain cynnydd yr holl gyrff cyhoeddus a gwmpesir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r graddau y maent wedi cofleidio'r newid diwylliannol sy'n ofynnol gan y Ddeddf. Mae'r adroddiad yn cynnwys dros 100 o argymhellion gyda'r nod o gyflymu newid.

Mae'r Comisiynydd yn chwarae rhan hanfodol wrth ddylanwadu ar bolisi cenedlaethol yng Nghymru, yn ogystal â chefnogi a herio Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill i ymgorffori gofynion y Ddeddf. Yn ystod 2020-21 mae'r swyddfa wedi canolbwyntio ar ddylanwadu ar benderfyniadau polisi a buddsoddi sy'n cefnogi adferiad gwyrdd, cyfartal a chyfiawn, a bydd y ffocws hwn yn parhau yn 2021-22.

Swyddi a sgiliau mewn diwydiannau allweddol ar gyfer adferiad gwyrdd, cyfartal a chyfiawn

Mae cyfle penodol i Lywodraeth Cymru wneud cysylltiadau â'r argyfyngau hinsawdd a natur a buddsoddi mewn datblygu sgiliau mewn sectorau y dangosir eu bod yn creu swyddi'n sylweddol ar gyfer adferiad gwyrdd, cyfartal a chyfiawn.

Am gyd-destun pellach gweler [‘Bylchau sgiliau cydraddoldeb mewn swyddi gwyrdd, yn ôl dadansoddiad newydd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, TUC Cymru a NEF’](#)

Datgarboneiddio, gyda ffocws penodol ar ddatgarboneiddio cartrefi ar raddfa fawr

Mae Cymru wedi gwneud addewidion sy'n arwain y byd i ddatgarboneiddio stoc dai yn sylweddol erbyn 2030, a fydd yn cefnogi'r nod i fod yn sero net erbyn 2050. Mae goresgyn lefelau tlodi tanwydd sy'n parhau i fod yn ystyfnig o uchel (12%) wrth wraidd datgarboneiddio a chymdeithasol Cymru, a rhaid ystyried amcanion cyfiawnder, a datgarboneiddio cartrefi fel rhan sylfaenol o adferiad gwyrdd, cyfartal a chyfiawn o'r pandemig yng Nghymru. O'i reoli'n dda, gallai rhaglen ôl-ffitio fod yn arloesol i economi Cymru - nid yn unig yn cwrdd ag amcanion datgarboneiddio a thlodi tanwydd, ond yn creu diwydiannau, sgiliau a swyddi newydd, yn seiliedig ar gadwyni cyflenwi lleol ac yn cefnogi'r economi sylfaenol.

Ar hyn o bryd mae'r swyddfa'n gweithio gyda New Economics Foundation a Sustainable Design Collective i archwilio opsiynau ar gyfer sut y gellid ariannu datgarboneiddio cartrefi, gan weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a Chymuned Tai Cymunedol.

Blaenoriaethau buddsoddi a phroses gyllideb Llywodraeth Cymru

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae dadansoddiad o gyllideb a phroses gyllideb Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhan allweddol o ddull y swyddfa o ddylanwadu ar fuddsoddiad mewn cyfleoedd ar gyfer adferiad gwyrdd, cyfartal a chyfiawn.

Am gyd-destun pellach gweler [‘Mae cyllideb nesaf Llywodraeth Cymru'n gyfle i gael adferiad gwyrdd a chyfiawn yn dilyn y pandemig’](#)

Y Gwaith

Rydym yn ceisio cefnogaeth economaidd a dadansodol gan unigolion, sefydliadau neu gonsortia ar gyfer gwaith y swyddfa ar ddylanwadu ar Lywodraeth Cymru a chwaraewyr eraill i wneud a gweithredu penderfyniadau a fydd yn datblygu adferiad gwyrdd, cyfartal a chyfiawn yng Nghymru. Mae hyn yn debygol o gynnwys:

- Dadansoddiad o ddogfennau polisi'r Llywodraeth a dogfennau cyllideb (gan gynnwys cyllidebau carbon ac effeithiau carbon penderfyniadau cyllidebol);
- Gwaith cydweithredol gydag aelodau o dîm CDC i ddod i gasgliadau a chynhyrchu syniadau;
- Ymchwil i bynciau polisi allweddol fel y rhai a grybwyllir yn adrannau eraill y ddogfen hon;
- Darparu cyngor penodol ar economeg llesiant neu gyllid;
- Mynychu cyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill, ochr yn ochr ag aelodau o dîm CDC;

Oherwydd ansicrwydd ein hamgylchedd gwaith presennol (y pandemig a chanlyniad etholiad y Senedd) nid ydym yn gwybod yn union ar ba ffurf y bydd y gwaith hwn a phryd y bydd yn bendant yn cychwyn, ac mae hyn yn rhywbeth y gallwn ei archwilio ymhellach yn y cam cyfweld. Fodd bynnag, mae'n debygol y byddwn am i rywfaint o waith ddechrau yn ystod mis Mai.

Mae gennym ddiddordeb mewn gweithio gydag unigolion a sefydliadau a all ddarparu gwerth ychwanegol i'n gwaith, er enghraifft trwy waith arall y maent yn ei wneud, neu trwy rwydweithiau a phartneriaethau.

Eich cynnig

Os oes gennych ddiddordeb mewn cyflawni'r gwaith hwn, paratowch gynnig sy'n cynnwys:

A. Profiad perthnasol

- Profiad o feysydd polisi allweddol sy'n gysylltiedig ag adferiad gwyrdd, cyfartal a chyfiawn, yn enwedig:
 - Sgiliau a swyddi
 - Datgarboneiddio cartrefi
 - Y rhyng-gysylltiadau rhwng adferiad gwyrdd a materion a thueddiadau cydraddoldeb allweddol
- Profiad o ddadansoddiad economaidd ar draws ystod o feysydd polisi, ac economeg llesiant.
- Profiad o ddadansoddi dogfennau cyllideb y Llywodraeth.
- Profiad o ddadansoddi cyllidebau carbon, ac effeithiau carbon penderfyniadau cyllideb.
- Deall tirwedd polisi Cymru a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.
- Dealltwriaeth o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

B. Agwedd at y gwaith

- Proffiliau ac arbenigedd penodol yr unigolion / staff a fyddai ar gael i gyflawni elfennau o'r gwaith.
- Cyfraddau talu'r unigolion / staff a fyddai ar gael i gyflawni elfennau o'r gwaith.

C. Buddion ehangach gweithio gyda'n gilydd

- Sut y gallai'r gefnogaeth a ddarperir i'n swyddfa gysylltu â gwaith arall y mae eich sefydliad yn ei wneud.
- Y gwerth ychwanegol y gallai eich sefydliad ei gynnig i'n gwaith - er enghraifft trwy waith arall rydych chi'n ei wneud, neu trwy eich rwydweithiau neu bartneriaethau, neu rannu gwerthoedd diwylliannol.

Gwybodaeth bellach

Cyn cyflwyno cynnig, efallai yr hoffech ymgyswngu â:

- Gofynion [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\)](#).

- Cyhoeddwyd statudol y Comisiynydd [‘Adroddiad Cenedlaethau’r Dyfodol’](#) ym mis Mai 2020. Yn benodol, ‘Y weledigaeth’ ym Mhennod 1, ‘Cymru Lewyrchus’ ym Mhennod 3 a ‘Decarboniad’ ym Mhennod 5.
- [Datganiad](#) y Comisiynydd ar ei meddyliau cynnar am gyfleoedd allweddol i Lywodraeth Cymru adeiladu'n ôl yn well wrth wella o'r pandemig.
- [Dadansoddiad](#) y Comisiynydd o gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22.

Os oes gennych gwestiynau am y gwaith hwn cyn cyflwyno cynnig, e-bostiwch Cathy Madge (cathy.madge@cenedlaethaudyfodol.cymru).